Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Y cylchlythyr i ddirprwyon

**Gaeaf 2015**

# OPG InTouch

## Yn y rhifyn hwn

Croeso i'r rhifyn diweddaraf o InTouch. Rydym yn gobeithio y bydd y diweddariad hwn yn rhoi ichi rywfaint o wybodaeth ddefnyddiol i'ch cynorthwyo yn eich rôl.

Yn y rhifyn hwn, rydym yn edrych ar newidiadau yn y ffordd yr ydym yn cynorthwyo dirprwyon. Rydym hefyd yn rhoi rhai awgrymiadau defnyddiol i chi ar lenwi eich adroddiad dirprwyaeth blynyddol.

Rydym hefyd yn rhannu eich awgrymiadau a'ch cyngor ar ariannu gofal iechyd parhaus ac yn edrych ar drefniadau taliadau gohiriedig awdurdodau lleol. Diolch yn fawr i'r rhai ohonoch sydd wedi rhoi o'ch amser i gysylltu â ni er mwyn i ddirprwyon eraill allu elwa o'ch profiadau.

Diolch hefyd i bawb a ymatebodd i'r arolwg dirprwyaeth diwethaf. Mae eich adborth yn gwneud gwahaniaeth.

## Newid y ffordd yr ydym yn gweithio

*Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gwneud rhai newidiadau pwysig yn y ffordd yr ydym yn goruchwylio ac yn cynorthwyo dirprwyon. Mae Paul Tregoning, ein rheolwr prosiect, yn rhannu'r newyddion diweddaraf ar sut ydym wedi bod yn newid y ffordd yr ydym yn gweithio er mwyn gwasanaethu eich anghenion yn well.*

Mae pob un o'r dirprwyon rydym yn eu goruchwylio yn disgyn i un o dri math - sef dirprwyon lleyg, dirprwyon awdurdodau lleol neu ddirprwyon panel/proffesiynol. Felly, o fis Tachwedd 2013 ymlaen, fe wnaethom ddechrau creu tri thîm arbenigol a fyddai'n arbenigwyr i ymdrin â'r tri math o ddirprwy.

Mae fy nghydweithwyr yn y timau hyn bellach yn gweithio ar bob agwedd ar achosion ar gyfer y math penodol o ddirprwyon y maent yn eu goruchwylio. Mae'r dull newydd hwn yn ein helpu i ddeall yn well yr heriau y mae ein dirprwyon yn eu hwynebu. Mae hyn yn golygu y gallwn gynnig gwell gwasanaeth i chi a rhoi mwy o gefnogaeth i'r rhai sydd angen hynny.

Fe wnaethom y newidiadau hyn ar ôl gwrando ar eich barn ac rydym wrth ein bodd bod yr arwyddion cynnar yn dangos eich bod yn hapusach gyda'r ffordd rydym yn gweithio nawr.

Mae rhan o'n dull newydd yn cynnwys siarad â chi ac ysgrifennu atoch mewn ffordd glir, lai biwrocrataidd. Byddwn yn parhau i gynnal y lefelau proffesiynoldeb, ond yn cyfathrebu mewn ffordd gyfeillgar a ffurfiol.

Chi yw'r elfen hanfodol yn y system sy'n amddiffyn llawer o bobl sy'n agored i niwed ac rydym yn cydnabod bod arnom angen gwell deialog gyda chi. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gyflawni hyn ac rydym yn croesawu eich adborth ar ba mor dda ydym ni am wneud hynny, yn eich barn chi.

Rydym hefyd yn brysur yn adolygu'r canllawiau a roddwn i ddirprwyon. Rydym yn gobeithio y bydd ein dull newydd yn dangos cysylltiadau cliriach rhwng amrywiol gamau dirprwyaeth ac yn tynnu sylw at faterion penodol y gallech eu hwynebu. Mae llawer ohonoch wedi bod yn ein helpu i ddatblygu'r canllawiau newydd ac rydym yn sicr y byddant yn helpu llawer o ddirprwyon i ddeall y broses yn well.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi sut mae pethau'n mynd.

Mae adroddiad y Gwarcheidwad Cyhoeddus i'r Senedd ar adolygu goruchwyliaeth dirprwyon ar gael yn **GOV.UK**

# Beth nesaf?

Nawr bod ein timau dirprwyon arbenigol wedi'u sefydlu, rydym yn barod i ddechrau eich cyflwyno i system ar-lein a fwriedir yn benodol i'ch cefnogi chi yn eich dirprwyaeth. Mae rhai ohonoch wedi ein helpu i lunio'r system hon ac wedi cymryd rhan mewn profion cynnar - diolch ichi gyd.

Mae'r gwaith profi'n dal i fynd rhagddo a byddem yn croesawu adborth pellach, felly os hoffech fod yn rhan o'r datblygiadau hyn ond eich bod heb gysylltu â ni eto, e-bostiwch **opgtransformation@publicguardian.gsi.gov.uk** neu ffonio 0300 456 0300 a gadael neges i'r tîm ymchwil defnyddwyr ar gyfer dirprwyaeth ddigidol.

Rydym hefyd wrthi'n creu system TG newydd i'n rheolwyr achosion. Rydym yn awr yn goruchwylio dros 53,000 o orchmynion dirprwyaeth felly mae angen inni wneud hynny mor effeithlon â phosib. Mae wedi'i wneud i'n helpu ni i'ch cefnogi chi'n well a chaiff ei lansio yn y gwanwyn.

# Newidiadau yn y system adroddiadau



Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda dirprwyon ar newidiadau eraill a fwriedir i wella goruchwyliaeth a chefnogaeth. Mae gennym gynlluniau i wneud rhai newidiadau pwysig yn y broses adrodd flynyddol eleni.

Y prif newid fydd cyflwyno cynllun blynyddol ar gyfer dirprwyon newydd. Rydym hefyd yn gwella'r broses adrodd fel ei bod yn cofnodi penderfyniadau mawr a newidiadau a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Bydd fformat y ffurflen adroddiad a'r canllawiau cysylltiedig hefyd yn newid, gan wneud y ffurflen yn haws ei chwblhau.

Bydd yr holl newidiadau hyn yn rhoi gwell trosolwg i OPG o bob achos ac yn ein galluogi i ymyrryd yn gyflym os yw'n ymddangos y gallai dirprwy, yn anfwriadol neu fel arall, fod mewn perygl o fynd yn groes i'w awdurdod.

Byddwn yn edrych ar y newidiadau hyn yn fanylach yn y rhifyn nesaf pan fyddwn hefyd yn gofyn am eich barn am sut y gallwn sicrhau eich bod yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnoch yn y ffordd sydd fwyaf addas i chi.

# Awgrymiadau ar gwblhau'r adroddiad dirprwyaeth blynyddol

*Mae'n rhan o'ch dyletswydd fel dirprwy i gwblhau adroddiad dirprwyaeth blynyddol ar ddiwedd blwyddyn y gorchymyn llys. Mae hon yn dasg bwysig y gallwn ni eich helpu i'w gwneud. Dyma ein hawgrymiadau i chi:*

- **balans agoriadol.**Os nad hwn yw eich adroddiad blynyddol cyntaf, sicrhewch fod balans agoriadol adroddiad eleni yn cyd-fynd â balans cloi y llynedd.
- **gwerthu eiddo.**Os ydych yn gwneud cofnod o werthiant eiddo, gwyliwch rhag defnyddio'r pris gwerthu. Rhaid bwrw cyfrif o'r ffioedd cyfreithiol, felly gallai'r cyfanswm fod yn is na'r pris gwerthu. Y swm ar ôl tynnu'r holl ffioedd yw'r swm y dylid ei gofnodi ar yr adroddiad. Mae hwn i'w weld ar y datganiad cwblhau.
- **trosglwyddiadau rhwng cyfrifon.** Os gwneir trosglwyddiad rhwng cyfrifon banc a chymdeithas adeilad yn enw'r cleient, rhaid cadw cofnod o hyn. Os na wneir hynny, mae'r cyfrifon yn annhebygol o fantoli.
- **cyfrifon ar y cyd.** Os oes gan gleient gyfrif ar y cyd, sicrhewch mai dim ond eu gwariant a'u hincwm nhw sy'n cael eu cofnodi. Cofiwch nodi'n glir mai cyfrif ar y cyd yw hwn.
- **cofiwch gynnwys popeth.** Cofiwch sicrhau eich bod yn bwrw cyfrif o bob trafodiad, fel y gwelir ar y datganiadau banc.
- **ad-daliadau.** Cofiwch gynnwys y rhain yn yr adroddiad fel ei bod yn glir pa arian sydd gan y cleient.
- **dyddiadau adrodd.** Defnyddiwch nhw i gydgasglu cyfriflenni banc ar gyfer yr un cyfnod.
- **taliadau rheolaidd.** Cofiwch edrych pa mor aml mae'r rhain yn cael eu talu – bob wythnos, bob pythefnos, bob pedair wythnos neu bob mis? Defnyddiwch gyfriflenni banc i gyfrifo'r union swm ar gyfer y cyfnod hwnnw.
- **rhoddion ariannol.**. Os ydych chi'n ystyried rhoi arian neu eiddo yn rhodd, mae angen i chi sicrhau bod y gorchymyn llys sy'n eich penodi yn caniatáu i chi wneud hyn. Cysylltwch â ni os nad ydych yn siŵr – efallai y byddwn yn dweud wrthych y bydd angen i chi wneud cais i'r Llys Gwarchod am ganiatâd.
- **yn methu â chael pethau i fantoli?** Os ydych chi'n cael anhawster i fantoli o ychydig bunnoedd, peidiwch â phoeni. Cysylltwch â'r tîm sy'n rheoli eich achos neu ffoniwch ni ar 0300 456 0300 er mwyn inni allu eich cynghori.

A chofiwch, ni all dirprwyon weithredu ar ddymuniadau a nodir yn ewyllys y cleient. Gwaith i'r ysgutor ydy hyn, yn dilyn marwolaeth y cleient. Er enghraifft, nid oes gan fuddiolwr hawl i'w etifeddiaeth cyn marwolaeth cleient oni bai bod ganddynt orchymyn penodol gan y Llys Gwarchod.

Rydym ni yma i helpu. Os ydych yn cael anhawster cwblhau eich adroddiad dirprwyaeth blynyddol, rhowch wybod i ni. Siaradwch â'r tîm sy'n rheoli eich achos neu ffoniwch 0300 456 0300.



# Ymweliadau

*Dyma ychydig o wybodaeth ddefnyddiol am y broses ymweliadau a phwy i gysylltu â nhw os oes gennych unrhyw bryderon.*

Mae ein tîm ymweliadau'n delio â phob cais am ymweliadau â dirprwyon, boed hynny ar gais yr OPG neu'r Llys Gwarchod.

Gellir gofyn am ymweliad am nifer o resymau. Er enghraifft, er mwyn cynnig mwy o gefnogaeth i ddirprwy, yn enwedig pan fyddant yn newydd i'r rôl. Bydd ymwelydd yn trafod cyfrifoldebau dirprwy newydd gydag ef ac yn ateb unrhyw gwestiynau.

Rheswm arall posib am gynnal ymweliadau yw oherwydd bod angen edrych ar ddogfennau neu gofnodion pwysig. Mewn rhai achosion, gall ymweliadau gael eu sbarduno gan ymchwiliad ffurfiol gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG) neu'r llys.

Os cewch eich dewis am ymweliad, bydd un o'n tîm o ymwelwyr yn cysylltu â chi'n uniongyrchol – drwy'r e-bost, y post neu dros y ffôn - i wneud trefniadau. Bryd hynny hefyd, byddant yn rhoi gwybod i chi a ydynt yn ymweld ar ran yr OPG neu'r Llys a byddant yn rhoi gwybod i chi pwy yr hoffent iddynt fod yn bresennol adeg yr ymweliad.

Yn ddelfrydol, byddant yn eich gweld chi â'r sawl yr ydych chi'n rheoli ei faterion, ond os ydych chi'n byw cryn bellter oddi wrth eich gilydd, efallai y byddant yn trefnu ymweliad ar wahân i'r ddau ohonoch.

Byddant yn gofyn i chi fod â'r dogfennau sy'n ymwneud â'ch dirprwyaeth wrth law, megis copïau o ddatganiadau banc.

Yn ystod yr ymweliad, bydd yr ymwelydd yn gofyn cwestiynau ichi am eich dirprwyaeth. Efallai y byddant, mewn rhai achosion, yn gofyn a allant weld y sawl yr ydych yn ddirprwy iddo ar ei ben ei hun - mae hyn yn rhywbeth y mae ganddynt hawl i'w wneud o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae'r holl ymwelwyr wedi cael eu hyfforddi ac yn brofiadol mewn materion galluedd meddyliol, felly ni fyddant yn gwneud unrhyw beth a allai gynhyrfu neu ofidio'r unigolyn.

Wrth gyrraedd am apwyntiad, bydd ymwelwyr yn dangos eu cerdyn adnabod. Os ydych yn ansicr neu'n bryderus am bwy yw eich ymwelydd, gallwch gysylltu â ni ar 0300 456 0300





# Ymweliadau sicrwydd dirprwyon proffesiynol

Fel rhan o'n dull newydd, rydym yn awr yn ymweld â nifer o ddirprwyon proffesiynol bob blwyddyn.

Mae'r ymweliadau sicrwydd dirprwyon proffesiynol yn cynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb er mwyn helpu i sicrhau bod dirprwyon proffesiynol yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen. Maent hefyd yn gyfle i ganfod unrhyw faterion neu bryderon sy'n dod i'r amlwg yn gynnar ac i roi sylw i'r rhain yn gyflym.

Mae'r ymweliadau yn cynnwys cwestiynau am achosion penodol ac, ar gyfer y rhai sy'n cynrychioli mwy nag un cleient, gwestiynau am sut rydych yn rheoli cleientiaid yn fwy cyffredinol. Yn ogystal ag ymweld â dirprwyon, rydym hefyd yn ymweld â hyd at dri chleient i gael darlun clir o'r achos cyfan.

Eisoes, mae ymweliadau sicrwydd wedi ein helpu i sylwi ar broblemau posibl. Mae hyn yn golygu ein bod wedi gallu camu i mewn yn gyflym i roi sylw i unrhyw broblemau. Mae hefyd yn golygu y gallwn roi mwy o gefnogaeth i ddirprwyon lle bo angen.

Mae'r ymweliadau hyn yn hanfodol i helpu i gael y cydbwysedd cywir rhwng cynorthwyo a goruchwylio, ac maent hefyd yn helpu i sicrhau y gofalir am les y cleientiaid.

Mae ymweliadau yn rhan o broses ehangach ar gyfer adolygu dirprwyon proffesiynol sydd hefyd yn cynnwys gwaith desg. Roeddem yn bwriadu edrych ar 40% o ddirprwyon proffesiynol y llynedd, boed hynny drwy ymweliad neu adolygiad gan OPG.

Bydd unrhyw un a ddewisir yn derbyn llythyr i roi gwybod iddynt y gofynnwyd am ymweliad sicrwydd ac y bydd ymwelydd a benodir gan y llys yn cysylltu i drefnu'r ymweliad. Bydd y llythyr yn cynnwys gwybodaeth am y meysydd sy'n debygol o gael sylw yn ystod yr ymweliad.

# Dod â phrofiad a sgiliau newydd i'r panel

Mae ymgyrch wedi cael ei lansio i adnewyddu ein panel o ddirprwyon. Fel rhan o'r ymgyrch honno, rydym eisiau denu pobl â chefndiroedd amrywiol, gan gynyddu'r gronfa o sgiliau a phrofiad sydd ar gael.

Y nod yw annog ceisiadau oddi wrth elusennau a sefydliadau nid er elw yn ogystal â chyfreithwyr, eiriolwyr galluedd meddyliol annibynnol a chyfrifwyr.

Caiff dirprwyon y panel eu penodi mewn achosion lle nad oes neb arall yn fodlon, yn addas, neu'n gallu gweithredu. Mae'r Llys Gwarchod yn dewis dirprwy oddi ar y panel sy'n cael ei reoli gan yr OPG.

Mae telerau'r aelodaeth yn mynnu bod dirprwyon y panel yn derbyn unrhyw benodiad ar gais y Llys Gwarchod oni bai bod ganddynt reswm dilys dros beidio â gwneud hynny.

Mae'r panel yn cael ei benodi am gyfnod o dair blynedd o leiaf, gyda'r nesaf i ddechrau ym mis Ebrill.

Byddwn yn rhoi diweddariad ichi yn y rhifyn nesaf o InTouch. Yn y cyfamser, edrychwch am fanylion pellach ar gov.uk/opg

# Dyfodol InTouch

Fe wnaeth yr arolwg diwethaf o ddirprwyon hefyd roi golwg defnyddiol iawn inni ar eich barn am InTouch. Er ei bod yn amlwg bod llawer ohonoch yn hoffi'r syniad o gylchgrawn rheolaidd neu ddiweddariad tebyg, mae yna lawer y gallwn ni ei wneud i'w wneud yn fwy addas ar gyfer eich anghenion.

Dyna pam ein bod yn awr yn meddwl yn ofalus am ddyfodol InTouch. A fyddai, er enghraifft, yn well datblygu InTouch fel adnodd defnyddiol ar gyfer dirprwyon lleyg a dod o hyd i ffordd wahanol o gadw mewn cysylltiad â dirprwyon proffesiynol a'r rheini ohonoch sy'n cynrychioli awdurdodau lleol? Efallai y byddai'n well gennych adnodd neu fforwm ar-lein?

Byddwn yn gofyn i sampl ar hap o ddirprwyon i ymateb i holiadur arbennig am InTouch cyn bo hir. Dim ond drwy wybod beth yw eich barn y gallwn ni gael pethau'n iawn.

Rydym yn awyddus i glywed eich barn.

# Dyddiadur Dirprwy

*Helo, Tony ydw i, dirprwy dros eiddo a materion i Annie. Yn y golofn hon rwy'n rhannu fy mhrofiadau fel dirprwy gan obeithio y byddant yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol ichi.*

Yn y rhifyn diwethaf o InTouch ysgrifennais am ddymuniad Annie i adael Hilltop, ei chartref gofal preswyl, a chael mwy o annibyniaeth. Dan bwysau gan yr elusen 'Making Space' roedd ei gweithiwr cymdeithasol, Colin, wedi dod o hyd i lety â chymorth gwahanol a oedd yn edrych yn addawol.

Ers hynny mae pethau wedi symud yn gyflym. Aeth Colin ag Annie i weld Sycamores, y tŷ oedd ganddo mewn golwg. Mae'n union beth roedd Annie eisiau. Ni fyddai ond yn rhannu gyda thri arall. Er y byddai gan Annie gefnogaeth gofalwyr sy'n byw i mewn yn amser llawn, byddai'n cael llawer mwy o annibyniaeth nag yn Hilltop.

Y cwestiwn cyntaf oedd: a allai hi ei fforddio? Er y byddai gofal Annie yn dal i gael ei ariannu gan y GIG byddai'n rhaid iddi ddechrau talu am ei rhent, ei bwyd a'i biliau. Nid oedd rhaid iddi dalu dim o'r rheini tra roedd hi mewn gofal preswyl. Dywedodd Colin wrthyf faint roedd disgwyl i'r llety newydd ei gostio ac fe wnes i baratoi cyllideb. Roedd yn dynn a dim ond yn fforddiadwy.

Ddechrau Tachwedd cyfarfu Annie a minnau gyda Colin a Laura, therapydd galwedigaethol. Roedd Laura yno oherwydd bod gofalwr Annie yn Hilltop yn meddwl na fyddai Annie ymdopi â'r grisiau a'r cyfleusterau coginio yn Sycamores. Cytunodd Annie i Laura gynnal asesiad ohoni i weld a oedd hyn yn wir. Dangosais fy nghyllideb i Annie gan egluro y gallai fforddio symud ond y byddai'n rhaid iddi wneud ar lai o bethau moethus.

Pasiodd Annie asesiad Laura. Symudodd i Sycamores ym mis Ionawr ac ers hynny rydym wedi bod yn brysur iawn. Y peth cyntaf oedd hysbysu'r OPG o gyfeiriad ac amgylchiadau newydd Annie. Nesaf fe gysylltais â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Fe wnaethant gadarnhau bod y symud yn golygu bod gan Annie hawl i gynnydd yn ei Lwfans Byw i'r Anabl (DLA), felly roedd rhaid i mi wneud cais newydd.

Yna fe wnaeth Annie a minnau gwrdd â Natasha, y rheolwr yn Sycamores, i drafod sut i reoli arian Annie. Mae'r rhent a'r biliau yn Sycamores yn fwy na'r hyn a awgrymodd Colin, felly yn gyntaf roedd rhaid i mi ddiweddaru fy nghyllideb. Yn ffodus, mae'r cynnydd yn y Lwfans Byw i'r Anabl yn ddigon i dalu am y cynnydd hwn.

Fe wnaethom gytuno y byddwn i'n talu'r rhent, y biliau ac unrhyw dreuliau mawr eraill o fy nghyfrif dirprwyaeth. Bydd gan Annie ei chyfrif banc ei hun ar gyfer bwyd a threuliau dydd i ddydd. Byddaf yn trosglwyddo swm penodol bob mis i gyfrif Annie a bydd Natasha yn helpu Annie i reoli ei harian.

I agor y cyfrif banc bu'n rhaid i Annie, Natasha a minnau ymweld â'r banc. Nid oes gan Annie unrhyw rai o'r profion adnabod arferol y mae ar fanciau eu hangen, felly euthum â llythyr oddi wrth Colin ar bapur y GIG i egluro amgylchiadau Annie. Agorwyd y cyfrif ar unwaith a'r diwrnod wedyn fe wnes i'r trosglwyddiad misol cyntaf.

Mae Annie a'r rhai ohonom sy'n ymwneud â'i gofal yn sicr o wynebu sawl her dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

I gysylltu â Making Space ewch i makingspace.co.uk neu ffoniwch 01925 571680

# Cytundebau taliadau gohiriedig awdurdodau lleol

*Gall fod yn anodd gwybod am yr holl opsiynau sydd ar gael wrth wneud penderfyniadau am ofal a sut i ariannu hynny. Yma rydym yn edrych ar gynllun a gynigir gan awdurdodau lleol sy'n caniatáu i bobl allu talu am eu costau gofal heb werthu eu cartref.*

Gall gwneud y penderfyniad i symud rhywun i gartref gofal a gwerthu eu cartref i ariannu hynny beri gofid.

Mae llawer o bobl nad ydynt yn sylweddoli ei bod yn bosibl peidio â gwerthu cartref ar unwaith a dal i gael gofal a ariennir o dan gynllun sy'n cael ei redeg gan awdurdodau lleol. Enw'r cynllun yw cytundeb taliadau gohiriedig ac mae'n rhoi mwy o ddewis ichi ynglŷn â phryd i werthu.

**Pwy sy'n gymwys?**
Mae gan awdurdodau lleol y disgresiwn i gynnig cytundeb taliadau gohiriedig i bobl:

- Sy'n berchen ar eu cartref
- Y mae'r awdurdod lleol wedi asesu eu hanghenion gofal
- Sydd â chyfalaf ac incwm cyfyngedig
- Y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i drefnu gofal preswyl parhaol iddynt
- Sydd wedi cael asesiad ariannol yn erbyn Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) 1992.

Os oes arnoch angen gwybodaeth bellach am eich awdurdod lleol ewch i **gov.uk/find-your-local-council**

# Astudiaeth achos

Mae Keith yn ddirprwy i'w fam Judith, sy'n byw mewn cartref gofal preswyl am gost o £684 yr wythnos. Mae Judith yn cael pensiwn a lwfans gweini. Mae'n berchen ar ei heiddo ei hun, sy'n werth £180,000, ond nid oes ganddi unrhyw gynilion. Er mwyn gwella ansawdd bywyd Judith, mae Keith wedi trefnu gweithgareddau fel mynd allan am ginio neu ar dripiau gyda gofalwyr cyflogedig. Mae hyn yn costio tua £400 y mis.

Gan nad yw incwm Judith yn ddigon i dalu am gost lawn ei gofal wythnosol, mae gan Keith gontract taliadau gohiriedig gyda'r awdurdod lleol. Mae hwn yn talu'r diffyg ariannol ac yn golygu nad oes raid i Keith werthu ei chartref ar unwaith. Gall ddewis ei werthu yn nes ymlaen neu ar ôl i Judith farw. Dan delerau'r contract, bydd yr awdurdod lleol yn cael yr arian y maent wedi ei dalu tuag at ofal Judith yn ôl pan gaiff ei chartref ei werthu yn y pen draw.

# Awgrymiadau ar wneud cais am gyllid ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG

Dyma rai awgrymiadau defnyddiol a gasglwyd oddi wrth eich adborth a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer dirprwyon sydd eisiau ymgeisio am gyllid ar gyfer gofal iechyd parhaus.

- Mynnwch wybodaeth. Ymunwch â grŵp i ofalwyr sy'n rhannu eu profiadau ac a fydd yn gallu ateb eich cwestiynau.
- Os oes unigolyn agored i niwed wedi bod yn yr ysbyty a bod yna newid yn yr amgylchiadau cyn iddo gael ei ryddhau, gofynnwch i'r ysbyty gynnal asesiad.
- Holwch sefydliadau fel Age UK i weld a ydych yn gwneud y peth iawn ar ran yr unigolyn agored i niwed.

Gallwch chi siarad â'ch meddyg teulu neu nyrs am gael asesiad, neu cysylltwch â'r tîm gofal iechyd parhaus yn eich Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol leol.

Am fwy o wybodaeth ewch i **nhs.uk** a chwilio am ofal iechyd parhaus y GIG.

NHS

# Budd-daliadau

Mae gofalu am eiddo a materion ariannol rhywun yn rôl gyfrifol. Mae rhan o hyn yn ymwneud â sicrhau eu bod yn cael yr holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt fel nad ydynt yn colli allan ar incwm.

Dyma rai ffynonellau gwybodaeth y gallent fod yn ddefnyddiol ichi.

Mae gwybodaeth am fudd-daliadau ar gael yn **gov.uk**

Yma fe gewch arweiniad i fudd-daliadau a gwybodaeth benodol am fudd-daliadau i bobl ag anabledd, pobl ar incwm isel neu'r rheini sy'n byw mewn cartref gofal.

Mae cyfrifydd budd-daliadau ar gael yn **gov.uk/benefits-calculators**

Drwy ateb cwestiynau a rhoi manylion y sawl yr ydych chi'n gweithredu ar ei ran, cewch wybod pa fudd-daliadau y gallai fod â hawl iddynt. Mae gwybodaeth hefyd i'w chael am gredydau pensiwn a budd-dal tai.

Os nad oes gennych fynediad i'r we neu pe byddai'n well gennych siarad gyda rhywun, cysylltwch â'r **Ganolfan Byd Gwaith ar** 0345 604 3719, 8am tan 6pm dydd Llun i ddydd Gwener.

Mae cyngor a gwybodaeth i bobl anabl a'u gofalwyr ar gael yn **gov.uk/disability-benefits-helpline**

Bydd angen ichi gael gwybodaeth wrth law am y sawl rydych chi'n gweithredu ar ei ran, gan gynnwys ei rif Yswiriant Gwladol, manylion rhent neu forgais, cyflogaeth bresennol neu yn y gorffennol ynghyd â manylion incwm arall a chynilion.

# Cysylltiadau defnyddiol

## Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG)

Mae Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn gyfrifol am gadw cofrestr o ddirprwyon a benodwyd gan y Llys Gwarchod ac atwrneiod a benodwyd dan atwrneiaeth arhosol neu barhaus. Mae'r OPG hefyd yn gyfrifol am oruchwylio dirprwyon ac am ymchwilio i honiadau bod dirprwyon ac atwrneiod wedi camddefnyddio arian.

**The Office of the Public Guardian**
**PO Box 16185**
**Birmingham**
**B2 2WH**

**www.gov.uk/opg**

## Canolfan Gysylltu'r OPG

**Ffôn: 0300 456 0300**

**9am tan 5pm - dydd Llun i ddydd Gwener**

**10am tan 5pm - dydd Mercher**

**Ni chodir mwy na chyfradd galwadau cenedlaethol**

**Email: customerservices@publicguardian.gsi.gov.uk**

Os ydych yn ei chael yn anodd siarad neu glywed a bod gennych fynediad i ffôn testun gallwch ddefnyddio'r Ffôn Testun ar **0115 934 2778**

**Ffacs: 0870 739 5780**

I lawrlwytho ffurflenni dirprwyaeth neu ganllawiau ewch i: **www.gov.uk/become-deputy**

## Tîm Ymweliadau'r OPG

**Ffôn: 0300 456 0300**

**E-bost: opgvisitorsoffice@publicguardian.gsi.gov.uk**

## Y Llys Gwarchod

Mae'r Llys Gwarchod yn llys arbenigol ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â phobl nad oes ganddynt y gallu i wneud penderfyniadau penodol. Mae'r Llys yn gwneud penderfyniadau ac yn penodi dirprwyon i wneud penderfyniadau er lles y rheini nad oes ganddynt y gallu i wneud hynny eu hunain.

**Court of Protection**
**PO Box 70185**
**First Avenue House**
**42 - 49 High Holborn**
**Llundain**
**WC1A 9JA**

**Ffôn: 0300 456 4600**

I lawrlwytho ffurflenni'r Llys Gwarchod ewch i: HMCTS Form Finder **http://hmctscourtfinder.justice.gov.uk/HMCTS/FormFinder.do**

I weld gwybodaeth am benderfyniadau'r Llys Gwarchod ewch i: **www.bailii.org/ew/cases/EWHC/COP**

**Cysylltu ag InTouch**

Office of the Public Guardian
PO Box 16185, Birmingham, B2 2WH

intouch@publicguardian.gsi.gov.uk